Adolygiad Diogelu Unedig Sengl

Single Unified Safeguarding Review

# BWLETIN MISOL

**RHAGFYR 25**

Croeso i rifyn mis Rhagfyr o'r Bwletin Adolygiad Diogelu Unedig Sengl.
Wrth i'r flwyddyn ddirwyn i ben, rydym wedi bod yn edrych yn ôl ar rai o lwyddiannau allweddol ADUS dros y 12 mis diwethaf:

- 105 wedi'u hyfforddi yn aelodau panel (301 cyfanswm)
- 42 wedi'u hyfforddi yn (190 cyfanswm) adolygwyr/cadeiryddion
- Hwyluso pedair sesiwn cymorth thematig ar gyfer Adolygwyr/Cadeiryddion
- Cynnal dau Ddigwyddiad Lledaenu Dysgu
- 192 o unigolion ar y Rhestr o Gadeiryddion ac Adolygwyr Cymeradwy

Mae wedi bod yn flwyddyn brysur ac rydym yn gyffrous i weld beth ddaw yn 2026!

**ADUSau sydd wedi'u comisiynu**
Mae cyfanswm yr ADUSau sydd wedi'u comisiynu ers 1 Hydref 2024 bellach yn 33

Ymarfer Plant: 16
Ymarfer Oedolion: 5
Yn ymwneud â Cham-drin Domestig: 6
Lladdiad Iechyd Meddwl: 2
Adolygiadau ar y Cyd: 4

## Llinell Gymorth Byw Heb Ofn

Wrth gynnal ADUSau, dylid cysylltu â'r llinell gymorth Byw Heb Ofn er mwyn sefydlu a oedd y sawl sy'n destun yr adolygiad yn hysbys iddynt. Bydd angen rhif ffôn i gynnal y chwiliad. Anfonwch bob ymholiad i gwybodaeth@llinellgymorthbywhebofn.cymru. Dylid ystyried gwneud cais am wybodaeth i'r llinell gymorth ar gyfer pob ADUS, nid dim ond ar gyfer adolygiadau sy'n amlwg yn gysylltiedig â cham-drin domestig.

## Ffarwel!

Mae'r tîm ADUS wedi bod yn hynod ffodus bod Beth Aynsley wedi ymuno â ni dros y 14 mis diwethaf ar secondiad o Heddlu De Cymru. Yn anffodus, mae'r secondiad hwnnw wedi dod i ben a bydd Beth yn gadael ar 2 Ionawr 2026. Mae gan Beth brofiad helaeth fel ymarferydd sydd wedi galluogi Hwb Cydgysylltu ADUS i gyflwyno nifer o ddarnau o lenyddiaeth, canllawiau, cymorth a digwyddiadau sydd wedi hwyluso'r gwaith o ddatblygu ADUS a'r gymuned ddiogelu ehangach.

Mae Beth yn gadael gwaddol yn y tîm ac o ran ADUS yn ei gyfanrwydd. Bydd yn parhau i weithio'n agos gydag ADUS pan fydd yn ôl yn ei rôl barhaol. Dywedodd Liane James, Arweinydd Ymgysylltu Strategol ADUS: *"Mae Beth yn berson hynod dalentog, proffesiynol ac ysbrydoledig, y bydd pawb yn gweld ei cholli hi'n fawr. Rydyn ni'n gobeithio, pan ddaw cyfle, y bydd hi'n dychwelyd i weithio gyda ni yn Llywodraeth Cymru a pharhau â'r gwaith anhygoel y mae hi wedi'i gyflawni."*

Bydd y tîm yn croesawu Hazel Jones i Hwb Cydgysylltu ADUS o 5 Ionawr 2026 ymlaen. Bydd Hazel yn ymgymryd â'r rôl o'r Tîm Diogelu ac Eirioli yn Llywodraeth Cymru.

**O 2026 ymlaen, bydd Bwletinau ADUS yn gostwng i un bwletin fesul chwarter.**

## Sesiwn ar gyfer y Rhwydwaith Cymorth

Canolbwyntiodd Sesiwn ar gyfer y Rhwydwaith Cymorth a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr ar Ddigwyddiadau Dysgu.

**Hoffem glywed gennych chi!**
Rhannwch unrhyw arferion da a nodwyd yn ystod cynnal ADUSau â Hwb Cydgysylltu ADUS drwy anfon e-bost i ADUSCymru@llyw.cymru

## Hyfforddiant

Mae pecyn e-ddysgu ar gyfer Aelodau Panel wrthi'n cael ei brofi gan y Grŵp Llywio Hyfforddiant, yn barod i'r pecyn gael ei dreialu ar gyfer hyfforddiant Aelodau Panel a gynhelir yn y flwyddyn newydd.

Bydd pecyn e-ddysgu ar gyfer Adolygwyr a Chadeiryddion ar gael cyn bo hir i Adolygwyr a Chadeiryddion sydd â phrofiad o Adolygiadau Ymarfer Plant / Adolygiadau Ymarfer Oedolion nad ydynt wedi ymgymryd â hyfforddiant ADUS.

Cynhaliwyd y ddwy sesiwn gyntaf ar gyfer uwch arweinwyr ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr, gyda phresenoldeb ac adborth da.

Rhannodd y tîm ADUS yr adnoddausydd ar gael yn y pecyn cymorth i gynorthwyo Cadeiryddion ac Adolygwyr i gynllunio a chyflwyno digwyddiadau dysgu yn ogystal â chanllawiau a luniwyd gan Barbara Firth yn ystod datblygu'r Fframwaith Adolygiadau Ymarfer Plant. Roeddem yn ffodus iawn o gael cyflwyniad gan Maxine Thomas a roddodd gyflwyniad i'r grŵp ynglŷn â digwyddiadau dysgu. Rhannodd y panel eu cynghorion defnyddiol ar gyfer hwyluso digwyddiadau a oedd yn cynnwys yr angen am hyblygrwydd a phwysigrwydd gwrando'n astud ar y rhai sy'n cymryd rhan.